# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 22 Tachwedd 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

# 173(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 4 Dadl ar ddeiseb P-06-1356: Cyflwyno mesurau diogelwch cynhwysfawr ar gyffordd 'Mynegbost' yr A477

(30 munud)

**NDM8408** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1356 Cyflwyno mesurau diogelwch cynhwysfawr ar gyffordd 'Mynegbost' yr A477' a gasglodd 10,310 o lofnodion

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Technoleg ddigidol a deallusrwydd artiffisial yn y GIG

(60 munud)

**NDM8410** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn dathlu datblygiad a defnydd o dechnolegau arloesol gan wasanaethau iechyd ledled y DU.

2. Yn croesawu'r Uwchgynhadledd Diogelwch Deallusrwydd Artiffisial, yr uwchgynhadledd fyd-eang gyntaf erioed ar ddeallusrwydd artiffisial, a gynhaliwyd ar 1 a 2 Tachwedd 2023.

3. Yn gresynu:

a) nad yw pob meddygfa yn defnyddio ap GIG Cymru;

b) nad yw e-bresgripsiynu wedi'i gyflwyno'n llawn yn GIG Cymru; a

c) bod y seilwaith technolegol sy'n sail i GIG Cymru yn creu rhwystrau i ymarfer clinigol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud yr hyn a ganlyn:

a) cyflwyno ap y GIG ac e-bresgripsiynu ar frys ar draws GIG Cymru gyfan;

b) cyflymu'r broses o integreiddio technolegau digidol a deallusrwydd artiffisial ar gyfer GIG Cymru; a

c) dechrau ar y broses o gael gwared ar dechnolegau'r GIG sydd wedi dyddio.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi pwysigrwydd sicrhau bod gweithio'n digwydd ar draws y DU yn dilyn uwchgynhadledd ddiweddar Llywodraeth y DU ar ddiogelwch deallusrwydd artiffisial (AI), er mwyn sicrhau bod safbwyntiau Cymru yn cael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau a chamau gweithredu yn y dyfodol.

Yn nodi pwysigrwydd datblygiad parhaus gwasanaethau digidol a thechnoleg ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn sicrhau gofal o ansawdd uchel.

Yn croesawu:

a) bod dros 200 o bractisau meddygon teulu bellach yn defnyddio Ap GIG Cymru;

b) mai'r pwriad yw ei gyflwyno ym mhob practis erbyn diwedd mis Mawrth 2024;

c) bod gwasanaeth presgripsiynau integredig yn dechrau cael ei gyflwyno ledled y wlad, wedi i'r Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig newydd mewn Gofal Sylfaenol gael ei lansio; a

d) gwaith cydgysylltu'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ar dechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, megis AI, i helpu i sicrhau eu bod yn cael eu mabwysiadu mewn modd cyfrifol, moesegol, teg a diogel.

## 6 Dadl Plaid Cymru - Y sector rhentu preifat

(60 munud)

**NDM8409** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) y pwysau costau byw parhaus sy'n wynebu rhentwyr;

b) y cynnydd rhent cyfartalog blynyddol yng Nghymru o 13.9 y cant yn 2021-22;

c) y cynnydd rhent cyfartalog pellach yng Nghymru o 6.5 y cant yn 2022-23, gyda Shelter Cymru yn nodi enghreifftiau o renti'n codi 100 y cant;

d) mai rhenti myfyrwyr yw 60 y cant o becyn cynhaliaeth cyfartalog y DU, gyda 32 y cant o fyfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru yn methu â thalu eu rhenti.

2. Yn credu na ddylai unrhyw un yng Nghymru gael ei roi mewn perygl o fod yn ddigartref o ganlyniad i chwyddiant uchel a diffyg stoc tai fforddiadwy.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu ar unwaith i wneud yr hyn a ganlyn yn y sector preifat:

a) rhewi rhenti;

b) cyflwyno mesurau i wahardd troi allan y gaeaf hwn.

[Ymateb Shelter Cymru i ymgynghoriad Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru: Creu llwybr tuag at dai digonol gan gynnwys rhenti teg a fforddiadwyedd]

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r pwysau parhaus o ran costau byw y mae pobl sy'n rhentu yn eu hwynebu.

2. Yn croesawu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru, i gyhoeddi Papur Gwyn yn amlinellu cynigion ynghylch posibilrwydd sefydlu system o renti teg a hefyd ddulliau newydd o sicrhau bod cartrefi'n fforddiadwy i bobl ar incwm isel.

3. Yn croesawu'r camau pendant, uchelgeisiol a radical ar gyfer diwygio yn y dyfodol a amlinellir yn y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd a ddatblygwyd fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru.

4. Yn credu na ddylai unrhyw un yng Nghymru wynebu'r posibilrwydd o ddigartrefedd yn sgil budd-daliadau annigonol sy'n gysylltiedig â thai;

5. Yn cydnabod mai'r dull unigol mwyaf ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau fforddiadwyedd yn y sector rhentu preifat yw cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol, ac yn galw ar Lywodraeth y DU i godi'r cyfraddau er mwyn adlewyrchu gwir gost rhent.

Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cymryd camau brys i droi'r miloedd o eiddo gwag yng Nghymru yn gartrefi unwaith eto;

b) ystyried cyfleoedd gyda'r sector i atal landlordiaid rhag gadael y farchnad rentu yng Nghymru;

c) gweithio gyda landlordiaid a deiliaid contractau i atal troi pobl allan dros fisoedd y gaeaf;

d) cyflwyno cynllun gweithredu i adeiladu 12,000 o dai bob blwyddyn; ac

e) gwneud datganiad ar yr adolygiad o Rhentu Doeth Cymru.

## 7 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

Peter Fox (Mynwy): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o'r effaith y bydd datganiad yr hydref Llywodraeth y DU yn ei chael ar Gymru?

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8406** Samuel Kurtz (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)

Diogelu anifeiliaid sy'n cael eu cam-drin - rhoi pwerau statudol i'r RSPCA

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2023

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 15/11/2023 i'w hateb ar 22/11/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## GWEINIDOG YR ECONOMI

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

1 OQ60278 **(e)**

Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi datblygiad sgiliau yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

2 OQ60273 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith hawliau datblygu a ganiateir ar y sector twristiaeth?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

3 OQ60290 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i geiswyr gwaith nad ydynt yn gallu cael mynediad at Gynllun Ailgychwyn Llywodraeth y DU gan nad ydynt wedi bod yn ddi-waith ers naw mis neu fwy?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

4 OQ60267 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi busnesau bach dros y deuddeg mis nesaf?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

5 OQ60270 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gysylltiad Llywodraeth Cymru â bargen ddinesig prifddinas-ranbarth Caerdydd?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

6 OQ60289 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y mae'r argyfwng costau byw yn ei chael ar glybiau chwaraeon ar lawr gwlad?

**Buffy Williams** *Rhondda*

7 OQ60262 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gweithwyr ar ôl cau ffatrïoedd UK Windows and Doors Group yn Rhondda?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ60295 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau llwyddiant y porthladd rhydd Celtaidd?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ60301 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch y gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i'r rhai sydd â stondin ym marchnad dan do Pen-y-bont ar Ogwr?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

10 OQ60266 **(e)**

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gyfraniad cwmnïau o Japan i economi Cymru dros y 50 mlynedd diwethaf?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

11 OQ60299 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi prosiectau cysylltedd digidol yng Ngogledd Cymru?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

12 OQ60281 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer canolbarth Cymru?

## Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**Peter Fox** *Mynwy*

1 OQ60298 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ddigonolrwydd gwasanaethau deintyddol?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

2 OQ60286 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl sy'n byw gyda COVID hir?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

3

## OQ60271 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysau'r gaeaf o fewn GIG Cymru?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

4

## OQ60302 (e)

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith yr argyfwng costau byw ar iechyd pobl Islwyn?

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*

5

## OQ60292 (e)

Sut mae Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn agosach at gartrefi pobl?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

6

## OQ60276 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd therapïau modiwlaidd ar gyfer cleifion ffibrosis systig yng Nghymru yn y dyfodol?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

7

## OQ60282 (e) Tynnwyd yn ôl

Pa asesiad mae'r Gweinidog wedi'i wneud o argaeledd ac ansawdd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

8

## OQ60263 (e)

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o bwysigrwydd sefydliadau cymorth canser y fron yn ne Cymru a gaiff eu rhedeg gan wirfoddolwyr?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

9

## OQ60291 (e)

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau amseroedd ymateb ambiwlansys yng Ngorllewin De Cymru?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

10

## OQ60294 (w)

Pa waith mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud er mwyn datblygu system gofal teg i Gymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

11 OQ60268 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi cleifion canser ym Mhreseli Sir Benfro?

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

12 OQ60269 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran argaeledd therapïau ar gyfer plant â ffibrosis systig yn Sir Ddinbych?